Hawdd ei Ddeall

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
North Wales Together
Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu
Seamless services for people with Learning Disabilities

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Defnyddio'r ffôn

## Mae'r daflen hon ynglŷn â defnyddio'ch cymorth clywed ar y ffôn

### Defnyddio eich cymorth clywed gyda ffôn:



Dyma rai ffyrdd o'ch helpu i ddefnyddio'ch cymorth clywed ar y ffôn.



Daliwch y ffôn ar eich cymorth clywed ar dop eich clust. Fel yn y llun.



Os yw'r ffôn yn gwneud i'ch cymorth clywed wneud sŵn chwibanu, rhowch gynnig ar y pethau hyn:

- Edrychwch a yw mowld y glust i mewn yn iawn. Mowld y glust yw'r rhan sy'n mynd i mewn i'ch clust.

- Daliwch y ffôn ychydig i ffwrdd oddi wrth y cymorth clust.

## Os oes sŵn:



Os oes sŵn yn yr ystafell pan ydych chi ar y ffôn, rhowch gynnig ar y pethau hyn:

- Gwnewch yr ystafell yn dawelach os gallwch chi.
- Fe allech chi geisio defnyddio rhaglen 'telecoil'. Mae hon yn rhywbeth y gallwch chi ei hychwanegu at eich cymorth clywed.

## Defnyddio rhaglen 'telecoil' gyda ffôn



Bydd y rhaglen 'telecoil' yn rhwystro'r cymorth clywed rhag chwibanu gyda'r ffôn.



Bydd ar y clywedegwr angen rhoi'r rhaglen ar eich cymorth clywed yn gyntaf.

Mae'r clywedegwr yn weithiwr iechyd sy'n chwilio i mewn i'ch problemau clyw.



Ac mae'n rhaid i chi gael y math iawn o ffôn.

- Pwyswch y botwm rhaglen fel y dangosodd rhywun i chi.
- Gallwch chi symud y ffôn o gwmpas i gael y sŵn gorau.